Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Si Lwli (Yr Eglwys Newydd)**

**24 Heol y Parc**
**Yr Eglwys Newydd**
**Caerdydd**
**CF14 7BQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

03/08/2023

# Meithrinfa Si Lwli (Yr Eglwys Newydd)

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Meithrinfa Silwli Nursery Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 58 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 10 ac 13 Gorffennaf 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn annibynnol. Mae ganddynt lais cryf iawn. Mae'r plant yn hyderus iawn wrth gyfathrebu â'i gilydd ac â'r staff gofal. Maent yn meithrin cydberthnasau cryf ac yn mynegi eu barn yn agored, gan wybod y bydd y staff yn gwrando arnynt.

Mae'r staff yn deall polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, diogelwch a llesiant personol yn llwyr, ac yn eu dilyn. Mae'r mwyafrif yn gymwys i wahanol lefelau, ac roedd pob aelod o'r staff y gwelsom yn wybodus, yn garedig ac yn ofalgar tuag at y plant, gan ddarparu lleoliad mawgrus dan arweiniad y plant. Mae'r staff yn cynllunio ac yn asesu mewn ffordd bwrpasol ac yn hyrwyddo ethos 'yn y foment' er mwyn gwneud yn siŵr y caiff chwilfrydedd a diddordebau'r plant eu datblygu ymhellach. Mae'r staff yn dangos brwdfrydedd gwirioneddol yn eu rolau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi rhoi camau rhagorol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Maent yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau a chyfarpar rhagorol ar gael i'r plant er mwyn meithrin sgiliau datblygiadol cyffredinol y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac maent yn rhagori ar y safonau gofynnol cenedlaethol. Mae ganddynt weledigaeth gref ar gyfer y dyfodol ac maent yn sicrhau eu bod yn rheoli eu tîm gan gynnig cymorth effeithiol a hyfforddiant parhaus. Maent yn awyddus iawn i sicrhau eu bod yn cynnig safon uchel iawn o ofal i'w plant. Maent wedi datblygu partneriaethau rhagorol ym mhob rhan o'r gymuned.

| Llesiant | Rhagorol |
|---|---|

Mae'r plant yn llawn cymhelliant, yn hyderus iawn ac yn gwybod bod eu syniadau a'u dymuniadau yn cael eu hystyried yn llawn. Maent yn cael cyfleoedd cyffrous ac arloesol i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt, a chaiff eu barn a'u diddordebau eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae gan y plant leisiau cryf, a chânt ddewis rhydd am yr hyn yr hoffent chwarae ag ef a dysgu amdano ac ym mhle y dymunant fod. Dewisodd rhai plant i barhau i chwarae yn yr awyr agored am y rhan fwyaf o'r diwrnod.

Mae'r plant yn hapus tu hwnt ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Maent wedi meithrin cydberthnasau cryf â'u cyfoedion a'u gofalwyr. Maent yn gyfarwydd iawn ag arferion y lleoliad, yn ogystal â'r ethos a'r gwerthoedd sef parchu ei gilydd a'r lleoliad. Caiff eu teimladau a'u hanghenion eu cydnabod a gwelsom enghreifftiau amlwg o hoffter ac ymlyniad â staff.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gyson ysgogol ac mae'r plant yn cydweithredu'n frwdfrydig. Mae'r plant yn mynegi empathi a gofal tuag at ei gilydd ac yn gwrando'n ofalus ar ei gilydd, gan ymateb a chyfathrebu â diddordeb ac ymlyniad. Roedd y plant yn gafael yn llaw ei gilydd i gydbwyso ac i'w helpu i ddringo allan o'r bws roeddent wedi ei greu o gawell. Maent yn ymgysylltu'n llawn ac yn dangos parch at eraill ac at y lleoliad. Mae'r plant yn cydweithredu, yn cymryd eu tro ac yn rhannu. Enghraifft o hyn yw pan welsom y plant yn cymryd eu tro i ddringo ysgol i edrych dros y ffens. Roedd un plentyn yn dal yr ysgol wrth i blant eraill ei dringo a dweud wrth y plentyn beth roeddent yn gallu ei weld, yna roeddent yn cyfnewid safle.

Mae'r plant yn ymgolli yn eu chwarae, gan ddefnyddio iaith a datblygu eu sgiliau ym mhob un o'r meysydd datblygu, drwy'r adnoddau pwrpasol sydd ar gael iddynt. Dywedodd grŵp o blant a oedd yn chwarae gyda deinosoriaid, 'I'm a mummy dinosaur', 'well I'm the daddy dinosaur', 'please don't eat me!' a 'let's go looking for food', wrth iddynt chwilio'n gyffrous am fwyd yn y gegin.

Mae pob un o'r plant yn brysur ac yn egnïol yn eu chwarae. Mae'r plant yn cymryd eu hamser yn y gweithgareddau maent yn eu dewis a chânt amrywiaeth eang o adnoddau i gyfoethogi'r profiadau hyn ymhellach. Mae'r profiadau a'r cyfleoedd maent yn eu cael yn hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol yn llawn. Gwelsom blant yn defnyddio eu dychymyg yn yr awyr agored i osod pont allan o flociau mawr wrth i eraill addasu eu syniadau yn antur pan fyddant yn troi'n dylluanod ac yn fwncïod yn dringo'r goeden.

Caiff y plant gyfleoedd rhagorol i ddatblygu eu hannibyniaeth drwy gydol y sesiwn, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus ac i ddatrys problemau yn effeithiol. Mae'r plant yn gyfrifol am osod y bwrdd ar gyfer y pryd bwyd, gweini bwyd eu hunain, arllwys dŵr o jygiau a chlirio platiau a phowlenni ar ôl gorffen. Maent yn symud o

ardal i ardal, dan do ac yn yr awyr agored, a gallant gael gafael ar adnoddau maent eisiau eu defnyddio yn hwylus.

## Gofal a Datblygiad — Rhagorol

Mae gan yr aelodau o'r staff ddealltwriaeth gynhwysfawr o bolisïau'r lleoliad. Cânt eu rhoi ar waith yn gyson i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, yn hybu diogelwch personol y plant ac yn sicrhau eu llesiant. Mae pob un ohonynt yn gweithredu'n gyson mewn ffordd ragweithiol ac effeithiol i reoli unrhyw risgiau wrth iddynt godi. Mae'r staff yn siarad yn barchus â'r plant, gan ddangos diddordeb, pleser a gofal ym mhopeth a wnânt. Maent yn rheoli unrhyw arwydd o ymddygiad annymunol yn ofalus ac yn gyflym ac maent yn llwyddo i dawelu sefyllfaoedd gan ddefnyddio eu dychymyg, cyn iddynt ddod yn broblemau.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn arbennig o dda a gallant ddarparu enghreifftiau o sut maent wedi datblygu ac maent yn deall eu hanghenion. Maent yn dangos eu bod yn wybodus ynghylch dysgu datblygiadol unigol y plant, eu hanghenion dysgu ychwanegol, ac unrhyw newidiadau i'w hymddygiad. Gallant ymdopi â'r cyfrifoldebau hyn a'u rheoli'n sensitif ac yn effeithiol. O ran arfer da, mae'r staff gofal yn sicrhau bod y plant yn cael digon i'w yfed a'u bod yn gallu cael gafael ar ddŵr yn barhaus. Maent yn gwisgo ffedogau a menig wrth helpu i drin bwyd neu newid cewynnau ac maent yn cynnig cymorth a chysur pan fydd plant yn teimlo unrhyw anesmwythder, yn baglu, neu'n cwympo.  Mae'r staff yn hyderus iawn gyda senarios diogelu a gallant egluro pob agwedd ar bolisi a gweithdrefnau'r lleoliad yn fanwl. Maent yn dangos dealltwriaeth drylwyr yn eu dyletswydd i ddiogelu pob plentyn, a chaiff hyn ei atgyfnerthu ym mholisi cynhwysfawr a chlir y lleoliad.

Mae'r rhyngweithio rhwng aelodau'r staff a thuag at y plant bob amser yn barchus. Mae'r staff yn gyson ymatebol ac yn gwrando o ddifrif ar farn y plant ac yn parchu'r barnau hynny. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol iawn, ac mae'r staff yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn sensitif o anghenion y plant ac yn manteisio ar bob cyfle i wella'r rhyngweithio. Maent yn gwneud hyn drwy ymatebion gofalus, iaith lafar gywir ac ymatebion a thrafodaethau estynedig sy'n cyfoethogi cyfleoedd i gyd-feddwl yn barhaus. Gwelsom blant yn mynd at yr aelodau o'r staff i gael sicrwydd, 'cwtshys' a mwythau. Mae'r staff yn hyderus i ymateb yn y foment, gan gynnig syniadau newydd. Enghraifft o hyn yw pan roedd y plant yn mwynhau gwneud coffï a llaeth cynnes i fabanod (babycinos) yn y caffi. Gwelodd yr aelodau o'r staff y cyfle a chefnogi'r gweithgaredd gydag ymweliad i'r caffi lleol i gael babycinos. Mae'r staff yn llawn bywyd ac yn frwdfrydig ac yn gallu defnyddio'r adnoddau i wella dysgu'r plant.

Mae'r staff yn wybodus iawn am adnoddau a gwnaethant sôn wrthym am sut y caiff rhannau rhydd eu defnyddio fel rhan o'r drefn ddyddiol. Er enghraifft, cylchoedd pren, cregyn, cerrig mân a brigau o wahanol feintiau sy'n caniatáu i'r plant gyfeirio eu chwarae eu hunain. Mae ganddynt ddealltwriaeth gyfoethog o faterion amrywiaeth ac yn hyrwyddo hawliau'r plant yn llawn. Maent yn ymrwymedig i ddarparu amrywiaeth ragorol o weithgareddau a chyfleoedd chwarae a dysgu ac maent yn gwbl ymwybodol o ddatblygiad

unigol y plant. Mae'r staff yn cynllunio'n ofalus ar gyfer y camau nesaf. Mae gan bob plentyn ffeil taith ddysgu, sy'n cynnwys llwybrau datblygu, arsylwadau, asesiadau ac adolygiadau.

## Yr Amgylchedd — Rhagorol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau, polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ac effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau yn llawn. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da iawn o dan do ac yn yr awyr agored. Caiff hyd yn oed y gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio, er enghraifft ardal yr ysgol goedwig gyda phwll tân, eu hystyried yn ofalus am bob risg a pherygl. Gwelsom ddogfennaeth lle caiff digwyddiadau sy'n ail-ddigwydd yn y lleoliad eu monitro, a chaiff nifer y digwyddiadau ym mhob ardal eu cofnodi. Nodwyd sawl digwyddiad yn yr ardd ac aethpwyd i'r afael â hyn gyda mesurau pellach, a oedd yn cynnwys monitro'r ardal a'r nifer o blant yn yr ardal a'u hannog i gerdded lle gallant. Gwelsom arferion hylendid cyson dda, sy'n lleihau'r risgiau i iechyd a diogelwch pawb. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau risg tân hynod o effeithiol a chynhwysfawr, sy'n cael eu hadolygu, a chaiff gweithdrefnau brys eu cyfathrebu'n glir. Maent yn sicrhau bod y cymarebau rhwng y staff a'r plant yn gywir. Mae'r staff gofal yn sicrhau bod lefelau uchel o oruchwylio a chyfathrebu fel mesurau diogelwch cyson am fod y drysau'n agored yn barhaus.

Mae'r lleoliad yn ddiogel, yn lân, yn groesawgar, yn gynnes ac mewn cyflwr rhagorol. Mae dodrefn ac adnoddau o ansawdd rhagorol ar gael yn hawdd i'r plant dan do ac yn yr awyr agored, sy'n ysgogi diddordebau a dychymyg y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i ddarparu adnoddau ysgogol sy'n hybu chwilfrydedd y plant. Caiff cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol eu hyrwyddo ym mhob rhan o'r ymarfer. Mae'r ardaloedd dan do yn lân, ac mewn lliwiau niwtral. Maent wedi'u trefnu'n dda a'u cyflwyno gyda gofal, gan gynnig cyfleoedd pwrpasol ar gyfer profiadau dysgu cyfoethog mewn gwahanol ystafelloedd, gan annog dysgwyr chwilfrydig i archwilio. Mae'r ystafelloedd ar y llawr gwaelod wedi cael eu henwi'n briodol yn 'Lolfa' 'Popty' 'Gweithdy' a 'Stiwdio' ac mae pob ystafell yn cynnig profiadau dysgu gwahanol o goginio, adeiladu, celf a chrefft i chwarae dychmygus ac amser tawel. Caiff y plant dan 2 oed ofal i fyny'r grisiau ac mae ganddynt fynediad at yr ardal chwarae yn yr awyr agored hefyd. Mae'r ardal awyr agored yn ddiogel ac yn darparu ardaloedd chwarae o amgylch y lleoliad cyfan, gan gynnwys ardaloedd cysgodol yn ystod tywydd poeth. Mae'r ardaloedd awyr agored yn cynnig sawl cyfle chwarae megis chwarae gyda mwd, tywod, dŵr, paentio, adeiladu a chrefft.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dewis adnoddau yn ofalus er mwyn gyflawni diddordeb a syniadau'r plant.  Maent yn cynnwys dewis helaeth o adnoddau 'go iawn' megis llestri a bwyd. Mae gan yr ardaloedd awyr agored megis y gegin fwd, ardal ochr yn ochr â hi lle gall y plant gloddio am fwd eu hunain. Gallant hefyd helpu eu hunain i ddŵr i ychwanegu at eu

chwarae. Mae'r staff yn sicrhau eu bod yn darparu profiadau dysgu cyfoethog cyson i'r plant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Rhagorol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth arloesol a gaiff ei rhannu â phob aelod o'r tîm. Caiff y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith eu hadolygu bob blwyddyn, ac roedd dyddiadau a llofnodion i'w gweld ar bob dogfen. Maent yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir i'r plant a'r teuluoedd ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Caiff ffeiliau'r staff, ffeiliau'r plant, arfarniadau, meddyginiaeth, cofnodion damweiniau a digwyddiadau oll eu cwblhau'n gywir a gellir eu gweld ar yr ap diogel ar-lein. Caiff yr holl systemau cofnodi eraill eu cwblhau, ac maent yn drefnus. Cofnodir presenoldeb y plant a'r aelodau o'r staff yn ddyddiol ar yr ap.

Ceir diwylliant cadarn o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae rhai o'r staff wedi datblygu eu gyrfa o fod heb gymhwyster i feddu ar gymhwyster lefel uwch wrth fod yn y lleoliad. Mae hyn wedi arwain at ddyrchafiad a chyfrifoldebau ychwanegol yn eu rolau ac maent yn falch o'r rhain. Mae proses hunanwerthuso effeithiol ac ystyrlon yn cael ei rhoi ar waith, ac mae adroddiad y lleoliad ar ansawdd y gofal yn adlewyrchu'r gwasanaeth ac mae'r lleoliad yn croesawu sylwadau gan y staff a'r plant ac yn gwrando arnynt.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn effeithiol wrth hyrwyddo arferion da cyfredol sy'n berthnasol i'r plant. Mae bob aelod o'r staff yn hyrwyddo'r Gymraeg, ac mae hyd yn oed y rhai sy'n llai hyderus yn dangos meistrolaeth dda iawn o'r iaith sy'n ffurfio rhan o'r ethos. Mae'r staff yn disgrifio'r lleoliad a'r tîm fel teulu ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli, dywedodd un aelod, '*nobody is better than anyone, we all chip in to do anything that needs doing, it is such a lovely place, and we are all so happy*.' Dywedodd rhywun arall '*We have excellent terms and conditions and are very well respected and looked after here'*

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob system cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn arloesol ac yn gwbl gynhwysol a bod ganddynt gysylltiadau cryf iawn gydag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ledled y gymuned leol a'r gymuned ehangach. Gwnaethant ddweud wrthym am y cydweithio â'r ysgol Gymraeg leol, y rheini, y gofalwyr a'r gymuned leol. Dywedodd rhieni wrthym '*I am extremely happy with all aspects of care and development my child receives. It's evident that procedures are followed and that the staff feel valued, motivated and empowered- this translates to the day-to-day culture and environment. I am delighted with all aspects of the organisation'* Mae hwn yn wasanaeth sy'n ymrwymedig i wella ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/09/2023